Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd

**Llanfair Dyffryn Clwyd**
**Rhuthun**
**LL15 2RU**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Ddinbych |
| Iaith y darparwr | Mae Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd yn ysgol ddwyieithog sy'n cyflwyno gwersi trwy gyfrwng y Gymraeg yn y dosbarthiadau sylfaen. Ar ddiwedd y cyfnod, caiff disgyblion ddewis parhau â'u haddysg naill ai trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Cymraeg yw iaith bob dydd yr ysgol. |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | Ysgol Reoledig yr Eglwys yng Nghymru. |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 112 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 87 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 11 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.7%) | 5.4% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 13.2%) | 6.9% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 39.1% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2023 (Dros dro)<br>01/01/2024 (Parhaol) |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | Rhagfyr 2015 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 05/02/2024 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol:
Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd yn ysgol hapus, deuluol a chroesawgar. Mae'r holl staff yn cydweithio'n effeithiol i ddarparu naws ofalgar, Gymreig a diogel lle mae staff a disgyblion yn gofalu'n naturiol am ei gilydd. Mae disgyblion yn mwynhau eu cyfnod yn yr ysgol yn fawr iawn. Maent yn hapus i'w mynychu, yn ymddwyn yn arbennig o dda, ac yn datblygu agweddau cadarnhaol at ddysgu.

Un o rinweddau amlycaf yr ysgol yw'r gefnogaeth ddiflino a ddarperir i ddisgyblion ddatblygu eu medrau Cymraeg. Mae naws Gymreig gryf yn bodoli yn yr ysgol gyda phwyslais amlwg ar ddarparu ystod o brofiadau gwerthfawr sy'n hyrwyddo ymwybyddiaeth disgyblion o'u milltir sgwâr, a hanes a thraddodiadau Cymru. Mae hyn yn dwysáu eu balchder o'u hysgol a'r gymuned ehangach ac yn creu ymdeimlad cryf o berthyn.

Mae athrawon yn cydweithio i gynllunio cwricwlwm cyfoethog, eang a chytbwys o brofiadau dysgu. Maent yn rhoi ystyriaeth dda i syniadau disgyblion wrth gynllunio'r cwricwlwm sy'n helpu i sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos cymhelliant cryf a diddordeb chwilfrydig yn eu dysgu. Mae hyn yn eu galluogi i ddatblygu'r medrau sydd eu hangen arnynt i fanteisio ar gwricwlwm cyfan ac i wneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn.

Nodwedd arbennig o'r ysgol yw'r modd mae'r staff, ynghyd â'r disgyblion, yn datblygu gweithgareddau dysgu yn yr awyr agored sy'n canolbwyntio ar sicrhau profiadau ysgogol a chreadigol, yn enwedig ar gyfer y disgyblion hynaf yn yr ysgol goedwig. Er hynny, nid yw'r athrawon bob amser yn darparu gweithgareddau dysgu sy'n sicrhau bod yr holl disgyblion yn cael her briodol wrth ddysgu, ac i wneud dewisiadau dros eu dysgu eu hunain.

Mae'r ysgol yn cael ei harwain yn effeithiol. Mae arweinwyr yn adnabod agweddau o waith yr ysgol sydd angen eu gwella, a'r camau sydd eu hangen i wireddu hyn. Mae staff ymroddedig, sy'n cydweithio â'i gilydd yn dda fel tîm, yn dangos ymrwymiad cryf i hyrwyddo gwelliannau parhaus a chynaliadwy. Mae gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth dda o waith yr ysgol ac maent yn cefnogi'r ysgol yn effeithiol.

## Argymhellion

A1 Cryfhau cyfleoedd i ddisgyblion wneud dewisiadau am eu dysgu, ac i weithio'n fwy annibynnol

A2 Sicrhau bod yr addysgu'n darparu her briodol ar gyfer yr holl ddisgyblion, a bod adborth yn eu helpu i wella'u dysgu ymhellach

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith mewn perthynas â datblygu gweithgareddau yn yr awyr agored sy'n canolbwyntio ar sicrhau profiadau ysgogol a chreadigol yn enwedig ar gyfer y disgyblion hŷn yn yr ysgol goedwig, i'w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cychwyn yn yr ysgol gyda'u medrau tua'r hyn a ddisgwylir ar gyfer eu cam datblygiad, heblaw am eu medrau Cymraeg, sydd yn iaith newydd i thua'r mwyafrif ohonynt. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu ac yn cyflawni'n dda.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad yn hyderus a chwrtais. Mae'r disgyblion sy'n hwyrddyfodiaid i'r Gymraeg yn magu hyder ac yn ymateb yn gadarnhaol i'r anogaeth i ddefnyddio'r iaith yn ystod eu gweithgareddau. Mae'r ethos Cymreig cryf ar draws yr ysgol yn hyrwyddo'r defnydd naturiol hwn o'r Gymraeg yn dda trwy gydol y dydd. Mae'r disgyblion hynaf yn gosod esiampl dda i'r disgyblion ieuengaf trwy arwain gwasanaethau ysgol gyfan a'u hannog i chwarae gemau buarth yn Gymraeg. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn trafod eu gwaith yn hyderus gan ddefnyddio cymariaethau cyfoethog, er enghraifft wrth ddisgrifio'r 'estron bach' sy'n creu drygioni yn y dosbarth. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hynaf yn adeiladu'n dda ar y sylfaen gadarn hon. Mae llawer yn siarad Cymraeg yn hollol naturiol ac yn defnyddio iaith gyfoethog a geirfa bwrpasol wrth drafod eu gwaith.

Mae medrau darllen llawer o ddisgyblion yn datblygu'n dda. Mae'r disgyblion ieuengaf yn defnyddio ystod briodol o strategaethau ffoneg i ddarllen geiriau cyfarwydd ac anghyfarwydd yn gywir. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf yn darllen â rhuglder cynyddol ac yn defnyddio eu medrau darllen yn hyderus gan egluro'r cynnwys yn dda, er enghraifft wrth drafod testun am y tywydd. Mae llawer o'r disgyblion hynaf yn darllen yn ddeallus mewn cyd-destunau amrywiol yn Gymraeg a'r Saesneg. Maent yn amrywio goslef eu llais ac yn defnyddio atalnodi yn fwriadus I ddangos eu dealltwriaeth. Yn ogystal, maent yn datblygu eu huwch fedrau darllen yn bwrpasol i gywain gwybodaeth o wahanol ffynonellau, er enghraifft wrth ymchwilio i drychineb y Titanic.

Mae medrau ysgrifennu cynnar y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblyg''n gelfydd. Maent yn gwneud marciau'n bwrpasol y tu mewn a thu allan i'r ystafell ddosbarth ac yn dechrau ffurfio llythrennau ac ysgrifennu geiriau syml. Wrth iddynt symud drwy'r ysgol, mae gwaith ysgrifennu y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n effeithiol, ac maent yn ysgrifennu ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaoedd ac at wahanol ddibenion.

Wrth i'w medrau ddatblygu, mae llawer yn defnyddio ystod dda o atalnodi a sillafu geiriau mwy cymhleth yn gywir. Ar frig yr ysgol, mae llawer o'r disgyblion hynaf yn defnyddio geirfa gyfoethog yn y ddwy iaith ac yn trefnu eu gwaith yn synhwyrol, gan ddefnyddio paragraffau'n gywir. Maent yn mynegi eu teimladau'n grefftus, er enghraifft wrth ysgrifennu dyddiadur am brotest yn gwrthwynebu boddi Capel Celyn.

Gwna'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol gynnydd cadarn yn eu medrau mathemateg a rhifedd. O oedran cynnar, mae disgyblion yn meithrin ystod ddefnyddiol o fedrau mathemategol ac yn mwynhau heriau mathemateg, gan ymgymryd â gemau cyfrif a gweithgareddau paru yn frwdfrydig. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer ohonynt yn defnyddio'u medrau rhifedd yn briodol mewn meysydd dysgu eraill, er enghraifft wrth ddefnyddio gwahanol gloriannau yn gywir i fesur a chymharu cerrig o wahanol faint a 'ddaeth o'r lleuad'. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hynaf yn gweithio'n hyderus gyda phedair rheol rhif ac yn datblygu medrau cadarn wrth drin data. Ar frig yr ysgol, mae llawer yn adalw ffeithiau rhif i gof yn gyflym, er enghraifft wrth ddarllen a dehongli amserlen drên. Maent yn cymhwyso eu medrau mesur yn llwyddiannus, er enghraifft wrth ddatblygu eu syniadau ar gyfer datblygu'r ardal allanol.

O oedran cynnar, mae disgyblion yn cymhwyso'u medrau digidol mewn ystod o gyd-destunau creadigol i gefnogi eu dysgu ehangach. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer ohonynt yn defnyddio llechen ddigidol yn hyderus, er enghraifft wrth ysgrifennu cyfarwyddiadau i ddisgyblion eraill yn yr ardal greadigol. Mae llawer o'r disgyblion hynaf yn defnyddio eu medrau digidol yn dda i gefnogi eu medrau ymchwil, ac wrth ysgrifennu, golygu, ailddrafftio a chyflwyno eu canfyddiadau, er enghraifft am y goedwig drofannol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau creadigol, artistig a chorfforol yn gelfydd gan ddefnyddio ystod o ddeunyddiau a thechnegau. Mae'r disgyblion ieuengaf yn defnyddio priciau, dail a bocsys cardfwrdd i greu cartref cynnes a chlud ar gyfer y draenog. Maent yn amrywio tôn a lliw yn ofalus, er enghraifft wrth gyfleu darlun tirwedd gyda phasteli. Maent yn cymhwyso eu medrau creadigol yn gelfydd trwy ddrama, chwarae rôl a pherfformio'n gyhoeddus.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau corfforol da drwy'r ystod o weithgareddau ysgogol. Maent yn symud gyda rheolaeth dda ar y corff ac yn dwyn dysgu blaenorol i gof wrth arddangos gwahanol siapiau yn grefftus. Maent yn cydweithio'n effeithiol mewn parau gan arddangos medrau taflu a dal pêl da. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r disgyblion yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn amrywiaeth o weithgareddau fel nofio a chystadlaethau triathlon ac athletau. O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o sut i ofalu am eu hiechyd a'u ffitrwydd.

**Lles ac agweddau at ddysgu**

Mae bron bob disgybl yn teimlo'n hapus a diogel o fewn amgylchedd gynhwysol, ofalgar a chartrefol yr ysgol. Mae perthnasoedd gwaith cynnes a phwrpasol rhyngddynt a'r staff yn sicrhau eu bod yn gwybod at bwy i droi am gymorth a chefnogaeth. Mae ymddygiad bron bob un yn arbennig o dda. Maent yn gwrtais ac yn barchus tuag at ei gilydd ag eraill. Nodwedd arbennig ar yr ysgol yw parodrwydd

bron bob disgybl i ddangos gofal ac ystyriaeth tuag at ei gilydd gan ddangos gwerthfawrogiad at gyfraniadau eu cyfoedion.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu agweddau cadarnhaol at ddysgu ac yn dangos diddordeb amlwg yn eu gweithgareddau. Maent yn ymgysylltu'n gadarnhaol â themâu dosbarth ac yn siarad yn frwdfrydig am eu dysgu. Mae'r disgyblion ieuengaf yn datblygu medrau dysgu annibynnol yn gynyddol hyderus ac yn cymhwyso ystod dda o fedrau a dysgu blaenorol yn llwyddiannus. Wrth ddatblygu drwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn canolbwyntio'n ddiwyd ar eu gweithgareddau dysgu am gyfnodau estynedig. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu i fod yn ddysgwyr uchelgeisiol a hyderus sy'n barod i ddysgu. Er hyn, ar adegau, nid yw lleiafrif y disgyblion yn trefnu a chyflwyno eu gwaith yn ddigon annibynnol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cydweithio'n effeithiol mewn parau ac o fewn grŵp gan drafod a chyfathrebu'n briodol, er enghraifft trwy gefnogi'i gilydd i ddatrys problemau a chwblhau tasgau yn yr ardal allanol. Maent yn ymateb yn gadarnhaol i adborth llafar athrawon wrth iddynt weithio ar eu tasgau, er enghraifft pan fyddant yn oedi am gyfnodau byr i rannu syniad neu i amlygu arfer dda. Mae'r rhan fwyaf yn gwerthfawrogi'r adborth ysgrifenedig cadarnhaol gan staff ar y gwaith yn eu llyfrau sydd yn aml yn cyfeirio'n fwriadus at feini prawf llwyddiant y dasg. Er hyn, nid yw'r adborth bob amser yn glir ynglŷn â beth sydd angen i'r disgyblion ei wneud i wella eu gwaith ymhellach.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn barod i ymgymryd â chyfrifoldebau yn gyson. Maent yn ymateb yn gadarnhaol i'r cyfleoedd i ddylanwadu ar yr hyn maent eisiau ei ddysgu o fewn eu themâu tymhorol. Mae hyn yn eu helpu i gymryd perchnogaeth dros eu dysgu eu hunain. Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud defnydd da o gyfleoedd i ddatblygu eu medrau arwain trwy ystod o rolau a chynghorau llais y disgybl. Maent yn gwneud hynny'n frwdfrydig gan gymryd eu cyfrifoldebau o ddifrif ac yn ymfalchïo yn yr hyn maent yn ei gyflawni. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad yn frwdfrydig am ddylanwad y cyngor ysgol wrth ddatblygu'r ysgol goedwig.

Mae bron pob disgybl yn datblygu dealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd bod yn ddinasyddion moesol ac egwyddorol. Maent yn datblygu'r gallu a'r hyder i drafod eu teimladau gydag eraill ac i ddangos empathi tuag at eraill mewn cyfyngder. Trwy hyn, mae eu hymwybyddiaeth o degwch a chydraddoldeb yn datblygu'n effeithiol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall pwysigrwydd gwneud dewisiadau da sy'n effeithio ar eu hiechyd. Maent yn mwynhau defnyddio'r amrywiaeth o offer sydd ar gael iddynt yn ystod amseroedd egwyl, gan gynnwys yr offer dringo a'r her rhwystrau. Maent yn frwdfrydig a gweithgar yn ystod gweithgareddau corfforol ac yn mwynhau cymryd rhan yn y clybiau chwaraeon, er enghraifft y clwb chwaraeon, pêl-droed a phêl-rwyd. Maent yn deall pwysigrwydd bwyta diet cytbwys, gan gynnwys bwyta amrywiaeth o ffrwythau a llysiau, ac yfed dŵr yn rheolaidd.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth dda o ddiogelwch ar-lein. Maent yn ymwybodol o bwysigrwydd mynychu'r ysgol yn gyson a phrydlon sy'n cyfrannu'n effeithiol at gynnal cyfraddau presenoldeb uchel.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae gan arweinwyr weledigaeth glir a chadarn ar gyfer cwricwlwm yr ysgol sy’n adlewyrchu natur a chyd-destun y gymuned, gan gynnwys gweithgareddau dysgu sy’n ymgorffori natur ieithyddol a diwylliannol yr ardal er mwyn cyfoethogi’r themâu. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion rannu eu syniadau wrth iddynt gynllunio themâu ac yn cyfeirio’n rheolaidd atynt wrth gyflwyno gweithgareddau. Maent yn cynllunio cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddysgu am eu cynefin, ac am hanes a thraddodiadau’r ardal, er enghraifft wrth ymweld â Gorsaf Eyarth a dilyn taith rheilffordd i Langollen. O ganlyniad, mae disgyblion yn dangos diddordeb a balchder yn eu pentref a’r gymuned ehangach.

Mae’r holl staff yn cydweithio’n effeithiol i greu ardaloedd dysgu diddorol a deniadol er mwyn darparu gweithgareddau dysgu ysgogol ac amrywiol ar gyfer disgyblion. Mae staff yn cynllunio amrediad eang o brofiadau buddiol i ddisgyblion yn yr ardaloedd dysgu y tu mewn a thu allan i’r dosbarthiadau. Ar draws yr ysgol, mae staff yn rhoi pwyslais clir ar ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion trwy ddarparu profiadau ymarferol sy’n eu cefnogi i ddatblygu eu medrau yn effeithiol. Er enghraifft, mae’r disgyblion hynaf yn cydweithio â dylunydd tirwedd lleol i ddatblygu’r tirlun a’r ardal allanol fel adnodd dysgu cyfoethog a chyffrous ar gyfer gweithgareddau dysgu. Mae hyn yn darparu profiadau ysgogol a chreadigol ar gyfer disgyblion hynaf yr ysgol. Mae'r profiadau dysgu gwerthfawr hyn yn darparu cyfleoedd perthnasol i ddisgyblion gymhwyso eu medrau llythrennedd, rhifedd, digidol a gwyddonol yn ogystal â’u medrau meddwl a chreadigol yn dda.

Mae staff yn cyfoethogi profiadau dysgu disgyblion gydag ystod o ymwelwyr ac ymweliadau difyr. Maent yn darparu cyfleoedd cyffrous i ddisgyblion gydweithio ag artistiaid lleol a gweithwyr creadigol proffesiynol. Er enghraifft, mae disgyblion yn cydweithio’n llwyddiannus gyda cherddor Cymraeg cyfoes i greu cân cyn ei pherfformio i’r rhieni. Mae hyn yn cryfhau ymgysylltiad disgyblion â’r gymuned ac yn y diwylliant Cymreig yn effeithiol. Mae’r ysgol yn cyfoethogi'r cwricwlwm ymhellach trwy ystod eang o glybiau a gweithgareddau ychwanegol fel y clwb codio, clwb yr Urdd a’r clwb chwaraeon.

Mae’r holl staff yn creu perthnasoedd cadarn â’r disgyblion sy’n meithrin amgylchedd gefnogol ar gyfer dysgu. Maent yn modelu’r iaith Gymraeg yn fedrus ac yn darparu cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion feithrin eu medrau ieithyddol ym mhob agwedd o fywyd ysgol. Mae staff yn darparu profiadau dysgu gwerthfawr wedi eu selio ar ddigwyddiadau Cymreig eu naws, sy’n caniatáu i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau digidol yn llwyddiannus, er enghraifft wrth greu animeiddiad i gyfeiliant cerddoriaeth gyfoes Gymraeg.

Mae athrawon yn defnyddio ystod o ddulliau ac adnoddau amrywiol i gymell dysgu’r disgyblion yn llwyddiannus. Yn yr arfer orau, mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd pwrpasol sy’n annog disgyblion i ddatblygu eu hannibyniaeth o oedran cynnar, gan sicrhau mynediad at wahanol offer a gweithgareddau sy’n eu symbylu’n llwyddiannus. Mae cyflwyniadau athrawon yn fyrlymus ac ysgogol sy’n ennyn diddordeb y rhan fwyaf o ddisgyblion. Maent yn holi’r disgyblion yn dreiddgar sy’n eu cefnogi’n dda i adalw dysgu blaenorol. Fodd bynnag, yn yr arfer lai effeithiol, mae tueddiad i athrawon or-gyfarwyddo’r dysgu ac nid yw’r her bob amser yn addas ar

gyfer diwallu anghenion pob disgybl. Mae hyn yn cyfyngu ar y cyfleoedd i ddisgyblion arwain eu dysgu eu hunain.

Mae staff yn cynnig adborth llafar buddiol sy’n annog disgyblion i ystyried yr hyn maent wedi ei gyflawni ac i wybod sut i wella eu gwaith. Mae’r trafodaethau yn bwrpasol ac yn gymorth i ddisgyblion ddatblygu eu medrau’n llwyddiannus. Yn yr arfer orau, mae adborth ysgrifenedig athrawon yn cynnig arweiniad buddiol i ddisgyblion ddatblygu eu gwaith. Fodd bynnag, nid yw’r adborth hwn yn gyson ar draws yr ysgol, ac nid yw bob amser yn cefnogi disgyblion i wybod beth i’w wneud i wneud cynnydd yn eu dysgu, a sut.

### Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae’r berthynas waith agos rhwng y staff a’r disgyblion, ac ymhlith y disgyblion eu hunain, yn arwain at gymuned ofalgar sydd ag ethos teuluol, cyfeillgar a chynnes sy’n cefnogi’r ymdeimlad o berthyn. Mae’r athrawon a’r cymorthyddion yn adnabod y disgyblion yn arbennig o dda ac maent yn ymateb yn bwrpasol i'w hanghenion emosiynol a chymdeithasol. Mae agweddau cadarnhaol staff yn cefnogi’r disgyblion i ymgartrefu'n rhwydd a chyfrannu’n dda at fywyd yr ysgol. Mae hyn yn atgyfnerthu eu bodlonrwydd a'u lles ac yn annog disgyblion i feithrin agweddau gwydn tuag at eu dysgu.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag ADY yn gadarn. Mae’r cydlynydd ADY (CADY) a’r staff yn frwdfrydig dros eu cyfrifoldebau a datblygiad y disgyblion. Dan arweiniad medrus y CADY, mae staff yn monitro ac olrhain cynnydd disgyblion drwy’r ysgol ac yn dadansoddi’r wybodaeth yn effeithiol. Mae hyn yn gymorth i adnabod darlun clir a chyfredol o anghenion pob disgybl yn amserol. Maent yn darparu ystod o raglenni cefnogi sy’n diwallu eu hanghenion penodol yn llwyddiannus. Mae angerdd yr holl staff at les a datblygiad disgyblion yn sicrhau bod yr amgylchedd dysgu yn gynhwysol ac yn cynnig y cyfle i’r rhan fwyaf o ddisgyblion wneud cynnydd cadarn o’u mannau cychwyn. Mae’r cyswllt a’r cyfathrebu clos â rhieni yn cyfrannu’n effeithiol at gyrraedd y nod hwn. Mae staff yn cydweithio’n llwyddiannus ag amrywiaeth o bartneriaethau ac asiantaethau i gefnogi’r disgyblion, er enghraifft trwy gydweithio â’r tîm therapi iaith a lleferydd i ddarparu cymorth arbenigol.

Mae’r ysgol yn darparu’n fwriadus ar gyfer diwallu anghenion lles bron bob disgybl. Drwy gynnal gweithgareddau yn yr ysgol goedwig, mae staff yn cefnogi disgyblion i ddatblygu eu medrau meddwl yn effeithiol. Mae hyn yn cyfrannu’n dda at adeiladu gwytnwch a dyfalbarhad wrth i ddisgyblion ddatrys problemau mewn gweithgareddau ysgogol yn llwyddiannus, er enghraifft.

Un o gryfderau’r ysgol yw’r modd mae staff yn hyrwyddo a datblygu dealltwriaeth disgyblion o’u hunaniaeth, eu treftadaeth a’u diwylliant. Mae disgyblion yn manteisio ar gyfleoedd gwerthfawr i ddathlu eu Cymreictod ac i deimlo eu bod yn perthyn i’r gymuned leol. Achubir ar gyfleoedd cyson i rannu a dathlu’r elfennau hyn drwy ystod o weithgareddau sy’n cael eu dathlu drwy arddangosfeydd nodedig o fewn yr ysgol a’r cyfryngau cymdeithasol. Er enghraifft, cynhelir gwasanaeth Diolchgarwch yn yr eglwys lle gwahoddir y cyhoedd i gyfrannu at fanc bwyd lleol. Mae'r ysgol yn gosod pwyslais cryf ar ddarparu ystod o deithiau ac ymweliadau i gefnogi'r cwricwlwm. Er enghraifft, mae’r disgyblion ieuengaf yn teithio ar y bws lleol er mwyn ymweld â’r siop

elusen fel rhan o'u gwaith thema. Llwydda'r gweithgarwch hwn i ehangu dealltwriaeth disgyblion o'u hardal leol ac ennyn a chynnal eu diddordeb i ddysgu yn llwyddiannus.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad moesol a chymdeithasol disgyblion yn gadarn. Rhoddir cyfleoedd gwerthfawr cyson i ddisgyblion fyfyrio ar ethos a gwerthoedd yr ysgol. Mae hyn yn eu helpu i ddeall materion yn ymwneud â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, ac yn datblygu gwerthoedd fel parch ac empathi, yn llwyddiannus. Caiff disgyblion gyfleoedd gwerthfawr i ddysgu am y byd ehangach, er enghraifft wrth ddysgu am wahanol grefyddau. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn dechrau datblygu eu hymwybyddiaeth o ba mor amrywiol yw cymdeithas heddiw.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu'r medrau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen arnynt i wneud dewisiadau ffordd iach o fyw. Er enghraifft, gosodwyd sefyllfa ymholi lle roedd pêl droediwr enwog eisiau penodi maethegydd a hyfforddwr personol i dîm pêl-droed Cymru. O ganlyniad, bu hyn yn ysgogiad buddiol i'r disgyblion ymchwilio i ffyrdd o gadw'n heini a bwyta'n iach.

Mae trefniadau'r ysgol i baratoi'r disgyblion ar gyfer byd gwaith yn effeithiol. Mae'r trefniant i wahodd rhieni i drafod eu gyrfa yn cyfrannu'n fwriadus at ysgogi disgyblion i godi eu dyheadau i'r dyfodol.

Mae diwylliant diogelu'r ysgol yn gadarn, ac mae staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau i gyfrannu at ddiogelwch a lles disgyblion. Ceir darpariaeth effeithiol i gynorthwyo disgyblion i'w cadw eu hunain yn ddiogel wrth weithio ar-lein. Mae gan yr ysgol strategaethau cadarn i hyrwyddo prydlondeb a phresenoldeb rheolaidd i ddisgyblion, gan gynnwys monitro dyddiol, cyfathrebu'n rheolaidd â rhieni a gwaith dilynol wedi'i gefnogi gan yr awdurdod lleol. O ganlyniad, mae'r cyfraddau presenoldeb yn gyson uchel.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol sy'n seiliedig ar sicrhau bod disgyblion a staff yn cynnal gwelliant parhaus mewn awyrgylch gartrefol a gofalgar. Mae'n rhannu'r weledigaeth hon yn llwyddiannus gyda staff, llywodraethwyr, disgyblion a rhieni. Mae hybu'r Gymraeg a Chymreictod yn ganolog i weledigaeth a holl waith yr ysgol. Mae'r athrawon a'r cynorthwywyr yn cyfrannu at wireddu'r weledigaeth hon yn llwyddiannus. Maent yn hyrwyddo diwylliant o ddiogelu yn effeithiol ac, o ganlyniad, mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol wrth eu gwaith a'u chwarae, ac yn mwynhau eu hamser yn yr ysgol.

Mae rolau a chyfrifoldebau staff wedi eu diffinio'n dda, ac mae pob un yn cyflawni eu dyletswyddau'n gydwybodol ac effeithiol. Mae gwaith tîm yn gryfder yn yr ysgol, gyda'r staff ymroddgar yn cydweithio'n ddiwyd. Mae hyn yn sicrhau bod gweledigaeth yr ysgol yn cael ei gwireddu'n llawn yng ngwaith yr ysgol.

Mae llywodraethwyr yn deall eu rolau'n dda ac yn cyflawni eu cyfrifoldebau'n gydwybodol ac yn llwyddiannus. Maent yn cyfrannu'n bwrpasol at osod blaenoriaethau strategol yr ysgol, ac yn meddu ar ddealltwriaeth glir o'r ddarpariaeth, a'i heffaith ar ddysgu disgyblion. Maent yn darparu cydbwysedd priodol o gymorth a her ac yn dwyn yr ysgol i gyfrif ar ran y gymuned leol. Mae'r corff llywodraethol yn

sicrhau bod y bwydydd a'r diodydd a ddarperir gan yr ysgol yn cydymffurfio â deddfwriaeth ac mae ganddo drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr yn adnabod yr ysgol yn dda. Maent wedi datblygu prosesau trylwyr i werthuso'i pherfformiad a chynllunio ar gyfer gwelliant. Mae gweithdrefnau hunanwerthuso cadarn yn ganolog i fywyd a gwaith yr ysgol. Mae'r broses yn seiliedig ar ystod eang o dystiolaeth sy'n cynnwys arsylwi gwersi, craffu ar waith disgyblion a chynnal teithiau dysgu. Mae trefniadau i fonitro a gwerthuso gwaith yr ysgol yn cael eu hymgorffori'n dda ac yn galluogi arweinwyr i nodi'n glir yr agweddau pwysicaf sydd angen eu gwella. Mae'r pennaeth yn sicrhau bod gan yr holl staff rôl weithredol yn y broses. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn ymwybodol o gryfderau'r ysgol a'r agweddau sydd angen eu gwella. O ganlyniad, mae gan yr ysgol hanes cryf o adolygu ei harfer a chodi a chynnal safonau.

Mae'r pennaeth ac arweinwyr yr ysgol yn defnyddio canfyddiadau'r broses hunanwerthuso i lunio cyfeiriad strategol clir sy'n canolbwyntio ar wella deilliannau a lles disgyblion. Mae nodau tymor byr a thymor hir yn realistig ac yn canolbwyntio'n bennaf ar ddeilliannau disgyblion. Ceir ymwybyddiaeth ac ymrwymiad cryf ymhlith arweinwyr a staff i fynd i'r afael â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn llwyddiannus. Mae'r cynllunio bwriadus ac ystyriol yn sicrhau bod yr ysgol yn mynd i'r afael â'r blaenoriaethau hyn yn llwyddiannus. Mae staff yn cydweithio'n effeithiol i wireddu Cwricwlwm i Gymru ac yn ymroi'n llwyr i ddarparu cwricwlwm sy'n cyffroi ac ennyn diddordeb y disgyblion. Mae datblygu medrau Cymraeg disgyblion a'u dealltwriaeth o dreftadaeth a diwylliant Cymru wrth wraidd gwaith yr ysgol.

Mae arweinwyr wedi sefydlu perthnasoedd cynhyrchiol â rhieni sy'n cyfrannu'n dda at eu gallu i gefnogi'u plant yn y cartref. Mae dulliau cyfathrebu effeithiol yn sicrhau bod rhieni'n cael cyfleoedd pwrpasol i godi unrhyw faterion a allai gael effaith ar ddysgu a lles eu plentyn yn amserol. Mae 'Cyfeillion yr Ysgol' yn hynod weithgar ac mae rhieni'n darparu profiadau allgyrsiol buddiol i'r disgyblion, er enghraifft wrth hyfforddi disgyblion i gystadlu'n llwyddiannus mewn eisteddfodau.

Mae'r ysgol yn hybu diwylliant o ddatblygiad proffesiynol sy'n sicrhau bod staff yn cael cyfleoedd cyson i fynychu cyrsiau a hyfforddiant sy'n cysylltu'n uniongyrchol â'u hanghenion unigol a blaenoriaethau'r ysgol. Enghraifft dda o hyn yw rhyddhau aelod o staff i gydweithio ag ysgolion y clwstwr i wella'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau digidol ac ymchwilio disgyblion. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o ymarferwyr allanol i gydweithio â staff, er enghraifft i wella medrau llafar Cymraeg disgyblion ac i ddatblygu'r ddarpariaeth allanol.

Mae'r ysgol yn rheoli ei chyllid yn effeithlon ac yn ei defnyddio'n synhwyrol yn unol â'r blaenoriaethau yng nghynllun gwella'r ysgol. Maent yn gwneud defnydd pwrpasol o gyllid grant ychwanegol, gan gynnwys y grant datblygu disgyblion, ac fe'i defnyddir yn ddoeth i ddarparu cymorth â ffocws i helpu ac annog dysgu a lles disgyblion. Mae staff yn defnyddio adnoddau'r ysgol yn effeithiol i ddarparu amgylchedd dysgu difyr sy'n cefnogi addysgu a dysgu, ac yn cryfhau lles corfforol a meddyliol disgyblion. Maent yn gwneud defnydd rheolaidd o dir helaeth yr ysgol, sy'n cynnwys yr ardal goedwig, i ddarparu cyfleoedd ysgogol a chreadigol ar gyfer dysgu yn yr awyr agored.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW    neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 10/04/2024